COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 1/2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 22 IONAWR 2019, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| PJ White | HM Williams | D Patel | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

CE Smith
Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr Dros Dro |
| Deborah Exton | Rheolwr Grŵp Cynllunio Ariannol a Rheoli Cyllidebaue |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |

297. DATGANIADAU O FUDDIANT

Cafwyd datganiad o fuddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda gan yr aelodau canlynol, oherwydd eu cysylltiad â’r Gronfa Gweithredu Cymunedol

298. CYMERADWYO’R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion y cyfarfod o’r Cabinet dyddiedig 18 Rhagfyr 2018, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

299. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2019-20 I 2022-23 A’R BROSES YMGYNGHORI AR Y GYLLIDEB DDRAFFT

Cyflwynodd Cadeirydd Panel Ymchwil a Gwerthuso’r Gyllideb adroddiad, er mwyn rhannu â’r Cabinet ganfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol mewn cysylltiad â:-

a) sylwadau Panel Ymchwil a Gwerthuso’r Gyllideb (BREP) a amgaeir yn Atodiad A ac Atodiad A1 o’r adroddiad;
b) yr ymatebion gan yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc mewn cysylltiad â chynigion cyllideb ddrafft y Cabinet, a amgaeir yn Atodiad A2.

Cadarnhaodd fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol wedi ystyried canfyddiadau’r BREP a’r holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc ar 14 Ionawr 2019, i benderfynu a ddylai’r argymhellion gael eu hanfon ymlaen at y Cabinet fel rhan o’r broses ymgynghori ar y gyllideb.

Er hwylustod, cafodd yr argymhellion eu rhannu’n atodiadau ar wahân. Mae’r rhain fel a ganlyn:

A1 – Argymhellion BREP mewn cysylltiad â Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019-20 – 2022-2023
A2 – Sylwadau Trosolwg a Chraffu Pwnc ac argymhellion ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019-20 i 2022-23

Eglurodd fod y Pwyllgor wedi derbyn yr argymhellion a'r sylwadau a gafwyd gan y BREP a'r holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc a chytunwyd i'w cyflwyno i'r Cabinet, yn amodol ar gyfres o newidiadau sydd wedi'u hymgorffori yn yr Atodiadau i'r adroddiad.

Dywedodd yr Arweinydd fod proses y gyllideb wedi bod yn un faith a chynhwysfawr, a bod y broses a ddilynir ym Mhen-y-bont yn un unigryw, yn yr ystyr nad oes yr un Awdurdod arall yng Nghymru'n craffu ar gynigion ei gyllideb i'r fath raddau â'r Awdurdod hwn. Roedd y broses hon yn enghraifft o ddull 'Un Cyngor', gyda phob grŵp gwleidyddol yn cymryd rhan ac yn cyfrannu.
Adleisiwyd hyn gan y Dirprwy Arweinydd, gan ychwanegu y byddai'r Cabinet yn edrych ar yr argymhellion a wnaed drwy'r broses Graffu ac yn ymateb iddynt cyn pennu'r Gyllideb.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cytuno i ystyried argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, mewn ymateb i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2019-20 i 2022-23 a'r Broses Ymgynghori ar y Gyllideb Ddrafft.

300. <u>MONITRO'R GYLLIDEB 2018-19 RHAGOLYGON CHWARTER 3</u>

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp – Cynllunio Ariannol a Rheoli'r Gyllideb adroddiad, i ddiweddaru'r Cabinet ar berfformiad y Cyngor yn ystod Chwarter 3, 31 Rhagfyr 2018.

Roedd yr adroddiad yn cymharu'r rhagolwg o wariant y Cyngor yn erbyn y refeniw a gymeradwywyd a chyllidebau cyfalaf am y flwyddyn. Roedd hefyd yn adolygu cyflawni gostyngiadau blaenorol a chyfredol yn y gyllideb ac yn dadansoddi'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a'r balansau ar yr adeg hon o'r flwyddyn.

Mae Tabl 1 ar dudalen 36 o'r adroddiad yn dangos rhagolwg o alldro refeniw'r Cyngor am y flwyddyn ariannol, gan amlinellu rhagolwg o wariant yn erbyn y gyllideb refeniw gytunedig o £266 miliwn ac roedd hyn yn dangos cyfanswm o danwariant o £5.312 miliwn am y flwyddyn ariannol. Roedd yn bwysig nodi bod y tanwariant hwn wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i ddau grant hwyr a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, sef £620,000 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a bron i £719,000 tuag at gost dyfarniadau cyflog athrawon. Heb y grantiau hyn byddai'r tanwariant wedi bod yn £3.973 miliwn. Yn gyffredinol rhagwelir tanwariant (ac nid gorwariant fel y nodwyd yn yr adran hon o'r adroddiad) ar gyllidebau Cyfarwyddiaethau o £592,000 a thanwariant o £6.6 miliwn yng nghyllidebau'r cyngor cyfan. Hyd yma, cafwyd cronfeydd wrth gefn newydd a glustnodwyd o £1.922 miliwn ac mae rhagor o fanylion am y rhain yn Nhabl 5 o'r adroddiad, (paragraff 4.5.4.)

Mae paragraff 4.1.4 o'r adroddiad yn nodi dau faes lle darparwyd cyllid oherwydd gwasgfa ar y gyllideb, yr Ŵyl Ddysgu a'r Grant Gwisg Ysgol, ond nid oedd eu hangen bellach ac roedd yr arian hwn wedi'i gymryd yn ôl yn gorfforaethol i leddfu gwasgfeydd eraill.

Mae paragraffau 4.1.5 i 4.1.8 o'r adroddiad yn rhoi rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol y cyngor wrth edrych i'r dyfodol, gyda chyfeiriad at y setliad terfynol a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor.

Gan gyfeirio at dudalen 38 o'r adroddiad a chysylltu hynny â'r rhagolwg o'r sefyllfa o ran refeniw, mae Adran 4.2 yn adolygu cyflawniad yn erbyn y Cynigion ar gyfer

Gostyngiadau yn y Gyllideb am y flwyddyn gyfredol a blaenorol. Yn ystod 2018-19 mae'r Cyngor wedi monitro perfformiad i gyflawni gostyngiad yng nghyllidebau 2016-17 a 2017-18 na chafodd eu cyflawni, ochr yn ochr â gostyngiad newydd yn y gyllideb ar gyfer 2018-19.

Mae Atodiad 1 (tudalen 53) yn dangos sefyllfa'r alldro ar gyfer cynigion 2016-17 a 2017-18 sydd heb eu cwblhau, a nodwyd camau lliniaru sydd i'w cymryd gan y Cyfarwyddiaethau i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n llawn. Roedd hefyd yn amlinellu'r cynigion newydd sy'n cael eu gweithredu gan Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant o dan eu cynllun cyflenwi gwasanaethau, i fynd i'r afael â'u gorwariant hanesyddol. Er y bydd cynnydd sylweddol yn cael ei wneud yn 2018-19 i gau'r bwlch, bydd diffyg o hyd i wneud iawn amdano yn 2019-20.

Mae Atodiad 2 o'r adroddiad (tudalen 54 ymlaen) yn edrych ar y sefyllfa yn erbyn yr holl ostyngiadau yng nghyllideb 2018-19. Roedd hyn yn dangos diffyg o £379,000 ar draws y Cyfarwyddiaethau, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u disgrifio'n fwy ym mharagraff 4.2.6. o'r adroddiad. Bydd y rhain yn parhau i gael eu monitro yn ystod 2018-19 a 2019-20 gyda Chyfarwyddwyr naill ai'n eu gweithredu'n llawn neu'n canfod cynigion amgen.

O dudalen 40 ymlaen, mae Adran 4.3 o'r adroddiad yn cynnwys mwy o fanylion a sylwadau ar berfformiad ariannol pob Cyfarwyddiaeth ac o ran cyllidebau'r cyngor cyfan.

Mae hyn yn cysylltu â Thabl 1 yn yr adroddiad ac Atodiad 3 (tudalen 63) sy'n cynnwys crynodeb lefel uchel o wariant yn erbyn cyllideb pob Cyfarwyddiaeth, ynghyd â chyllidebau a throsglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn y Cyngor cyfan.

Roedd gorwariant yn cael ei ragweld gan y Cyfarwyddiaethau Addysg a Chymorth i Deuluoedd a Chymunedau, sy'n cael eu gosod yn erbyn tanwariant ar gyllidebau Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Weithredwr. Unwaith eto, dywedodd y Swyddog ei bod yn bwysig nodi bod y grant diweddar o £620,000 gan Lywodraeth Cymru i Wasanaethau Cymdeithasol yn cuddio'r gwir sefyllfa, a oedd yn orwariant ar Wasanaethau Cymdeithasol.

Ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad, mae adran ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth sy'n dangos y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, gyda thabl sy'n amlygu'r amrywiannau mawr a naratif ar gyfer pob un amrywiant sy'n esbonio'r rhesymau amdanynt.

Fodd bynnag, roedd nifer o achosion o danwario a gorwario mawr yn yr holl Gyfarwyddiaethau, fel y gwelir yn yr adroddiad.

Mae'r adran ar Addysg a Chymorth i Deuluoedd hefyd yn cynnwys naratif ar y sefyllfa ar falansau ysgolion ar dudalennau 41, sy'n dangos rhagolwg o ostyngiad mewn balansau o warged o £360,000 ar ddechrau'r flwyddyn i ddiffyg o £870,000 ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r sefyllfa hon wedi'i chuddio gan grant penodol o £231,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynnydd yn niferoedd prydau ysgol am ddim yn sgil cyflwyno credyd cynhwysol.

Mae paragraff 4.3.5 ar dudalen 47 yn dangos y sefyllfa o ran cyllidebau'r Cyngor cyfan.

Yn gyffredinol mae tanwariant net o £6.6 miliwn, ond mae nifer o symudiadau untro sy'n cyfrannu at hyn, gan gynnwys:

- £2.4 miliwn o danwariant ar gostau cyllido cyfalaf, yn dilyn y newid mewn Polisi MRP. Mae'r gyllideb hon yn rhan o'r gostyngiadau yng nghyllideb MTFS yn 2019-20.

- Llai o ofynion cyllido ar gyfer chwyddiant, gwasgfeydd cyllidebol a chronfeydd wrth gefn. Mae gwasgfeydd ar y gyllideb nad oes bellach eu hangen wedi cael eu hadfachu, ac mae’r Cyngor wedi cael £719,000 fel grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynnydd yng nghyflogau athrawon.

Mae adran 4.4 ar dudalen 48 o’r adroddiad, yn dangos sefyllfa’r alldro ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf. Mae’r rhaglen a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2018 wedi cael ei hadolygu a’i newid yn ystod y flwyddyn ariannol, gyda’r diweddariad diweddaraf ym mis Rhagfyr 2018. Dangosir dadansoddiad llawn o wariant yn erbyn y gyllideb ar gyfer pob cynllun ynghyd ag unrhyw symudiadau ychwanegol yn Atodiad 4 (tudalennau 65 i 67 o’r adroddiad).

Mae adran 4.5 o’r adroddiad (tudalen 49) yn rhoi dadansoddiad o’r symudiadau ar gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Ceir dadansoddiad llawn o symudiadau ar gronfeydd wrth gefn hyd yma yn Atodiad 5 o’r adroddiad, ac sy’n gwahanu cronfeydd wrth gefn Cyfarwyddiaethau oddi wrth gronfeydd wrth gefn Corfforaethol. Roedd cronfeydd wrth gefn wedi gostwng o £48 miliwn i £45 miliwn ar ddiwedd Rhagfyr.

Y prif symudiadau yw:

- Mae Cyfarwyddiaethau wedi tynnu £4.8 miliwn i lawr o gronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi
- Mae’r Cyngor wedi sefydlu £1.279 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn corfforaethol i wynebu risgiau neu wasgfeydd hysbys neu debygol

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i Dîm Cyllid y Cyngor am barhau i reoli cyllideb y Cyngor mewn ffordd ddarbodus. Ychwanegodd, fodd bynnag, na allai’r Cyngor ddibynnu ar addewidion o gyllid grant yn y dyfodol, a bod hyn yn golygu bod amser anodd iawn yn wynebu’r Cyngor o hyd.

Adleisiodd yr Arweinydd y sylwadau hyn gan ychwanegu bod y gaeaf gyda ni o hyd a bod hon yn adeg o’r flwyddyn lle’r oedd pwysau ariannol ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â graeanu ffyrdd, cadw ysgolion yn agored mewn tywydd garw a hefyd heriau sy’n gysylltiedig â Gwasanaethau Cymdeithasol.
Ychwanegodd Aelodau eraill o’r Cabinet fod ansicrwydd ariannol hefyd ynghlwm wrth ganlyniadau Brexit, a oedd yn anhysbys ar hyn o bryd.

Gofynnodd yr Aelod o’r Cabinet – Cenedlaethau’r Dyfodol a Llesiant a oedd Swyddogion yn ymwybodol bellach o’r gymhariaeth ariannol a fyddai’n dod i’r amlwg wrth symud o Chwarter 3 i Chwarter 4.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp - Cynllunio Ariannol a Rheoli’r Gyllideb nad oedd hyn yn hysbys eto gan fod y prosiectau a nodwyd yn yr adroddiad yn seiliedig ar yr wybodaeth fwyaf diweddar sydd ar gael. Ychwanegodd fod gwasanaethau’n seiliedig ar y galw amdanynt felly roedd hyn, i raddau, yn ei gwneud yn anodd rhagweld gwasgfeydd ariannol y dyfodol o’u cymharu â’r rhai a fodolai ar hyn o bryd.

Ychwanegodd fod y grantiau a ddyrannwyd yn ddiweddar wedi helpu sefyllfa’r gyllideb ac mae’n bosibl y gallai rhagor eu dilyn, ac y gellid manteisio arnynt yn y rhannau hynny o’r Awdurdod lle’r oedd yr angen mwyaf amdanynt.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn nodi’r rhagamcan o refeniw a sefyllfa’r alldro cyfalaf am 2018-19.

301. YMGYNGHORIAD AR Y STRATEGAETH EIDDO GWAG

Cyflwynodd y Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth adroddiad er mwyn cael cymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y Strategaeth Eiddo Gwag ddrafft 2019-2023.

Cyflwynodd wybodaeth gefndir ac yna dywedodd fod y Strategaeth Eiddo Gwag wedi'i llunio a'i bod wedi'i hamgáu gyda'r adroddiad yn Atodiad 1.

Eglurodd mai un o'i phrif nodweddion yw'r bwriad i fabwysiadu dull 'cymysg' i sicrhau bod y pwyslais wrth weithredu ar ffeithiau a gwybodaeth allweddol. Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i eiddo ar sail meini prawf fel gwerth niwsans, niwed, lleoliad a'r galw am dai ac nid yn unig yn ôl pa mor hir mae eiddo wedi bod yn wag. Ar ôl blaenoriaethu, bydd y Gweithgor Eiddo Gwag yn penderfynu ar y camau mwyaf priodol i geisio defnyddio'r eiddo unwaith eto.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar eiddo preswyl gwag yn y sector preifat. Gan fod angen dull mwy penodol i allu defnyddio eiddo masnachol unwaith eto fel eiddo masnachol, nid ydynt yn rhan o'r Strategaeth hon. Fodd bynnag, os cyfyd cyfleoedd i ddefnyddio eiddo masnachol gwag unwaith eto fel llety preswyl, yna bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r Strategaeth.

Ychwanegodd y byddai'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid yn ceisio cydweithredu â pherchnogion er mwyn gallu defnyddio eiddo gwag o'r fath unwaith eto.

Ychwanegodd y Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth hefyd fod Gweithgor Eiddo Gwag wedi cael ei sefydlu ac y bydd yn helpu i gyflawni nodau'r Strategaeth, a bod cydweithredu â rhanddeiliaid allweddol eraill yn ffactor allweddol i sicrhau llwyddiant y Strategaeth.

Dywedodd hefyd y byddai'r ymgynghoriad yn para am 12 wythnos ac efallai y bydd angen newid y Strategaeth mewn ymateb i sylwadau a geir yn sgil yr ymgynghoriad.

Daeth y Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth â'i gyflwyniad i ben drwy nodi'r goblygiadau ariannol.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet – Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant ei bod yn falch o weld y cynigion positif yn y Strategaeth a fyddai'n helpu i alluogi dros 1,000 o eiddo preswyl yn y sector preifat a oedd yn wag ar hyn o bryd i gael eu meddiannu unwaith eto.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod nifer fawr o eiddo gwag yng nghymunedau'r cymoedd yn y Fwrdeistref Sirol a'i fod yn edrych ymlaen at weld tystiolaeth bellach fel rhan o'r Strategaeth, o'r math o eiddo a fyddai'n cael eu targedu i gael eu hailfeddiannu.

Dywedodd y Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth fod cydweithredu'n fewnol ac yn allanol yn rhan bwysig dros ben o'r Strategaeth, ac roedd hynny'n cynnwys cydweithio'n agos â pherchnogion yr eiddo. Ychwanegodd y byddai matrics marcio'n cael ei gyflwyno er mwyn cyflawni nodau tymor hir y Prosiect.

Gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar am gadarnhad mai bwriad y Strategaeth oedd sicrhau bod eiddo preswyl cael eu rhoi mewn cyflwr i alluogi pobl i fyw ynddynt o flaen eiddo masnachol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Perfformiad mai nodau'r Strategaeth oedd targedu eiddo preswyl gwag er mwyn i bobl allu byw ynddynt. Fodd bynnag, pe cyfyd cyfleoedd i alluogi pobl i feddiannu eiddo masnachol, yna byddai'r mater yn cael ei ystyried gyda pherchnogion yr eiddo.

Diolchodd yr Arweinydd i bawb a oedd wedi bod yn gysylltiedig â'r Strategaeth a oedd yn cynnwys cyfraniad Aelodau a'r Aelod o'r Cabinet – Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant ac Aelod Ward Morfa sydd â phrofiad blaenorol o'r maes Tai.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:-

(1) Rhoi ei gymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y Strategaeth Eiddo Gwag.
(2) Cytuno i gael adroddiad arall ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori i ystyried mabwysiadu'r Strategaeth yn ffurfiol.

302. STRATEGAETH DDIGARTREFEDD 2018-2022

Cyflwynodd y Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth adroddiad. Diben yr adroddiad oedd cael cymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Ddigartrefedd ddrafft a amgaewyd fel Atodiad 1 o'r adroddiad.

Mae Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i gynnal Adolygiad o Ddigartrefedd yn ei ardal ac yna i lunio a mabwysiadu Strategaeth Ddigartrefedd.

Eglurodd fod yr adolygiad o ddigartrefedd wedi canfod yr wybodaeth angenrheidiol i lunio'r Strategaeth arfaethedig am y cyfnod 2018-2022 yn unol â Chanllaw Llywodraeth Cymru. Dangoswyd prif ganfyddiadau'r adolygiad ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad.

Cyfeiriodd y Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth yr Aelodau at y Strategaeth ddrafft, a dywedodd ei bod wedi cael ei datblygu mewn ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad. Roedd wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gyda'r amod ei fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus (a chymeradwyaeth derfynol y Cabinet).

Ychwanegodd fod yr adolygiad wedi amlygu nifer o feysydd sydd angen eu datblygu ymhellach, er mai un o'r negeseuon oedd yr angen i bwysleisio bod digartrefedd yn fater cymhleth, trawsbynciol, sy'n gofyn nid yn unig am ymagwedd gorfforaethol ond hefyd un sy'n seiliedig ar bartneriaethau. Mae bwriad i ddatblygu Cynllun Gweithredu i ategu'r Strategaeth.

Yn dilyn y broses ymgynghori, rhagwelir y bydd Strategaeth derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet i gael eu cymeradwyaeth ym mis Ebrill 2019.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet - Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant fod nifer sylweddol o randdeiliaid allweddol wedi bod yn gysylltiedig â datblygu'r Strategaeth ddrafft a oedd wedi cael ei chyd-gynhyrchu'n unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Act 2015.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn teimlo bod peth o'r wybodaeth ystadegol yn y Strategaeth ddrafft yn achos tristwch. Ychwanegodd ei bod yn gobeithio y byddai'r holl bartneriaid yn cydweithio'n effeithiol er mwyn lleihau problem digartrefedd, ac y byddai hynny'n cynnwys Landlordiaid Preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet – Cymunedau'n teimlo y dylid ychwanegu at y categori o grwpiau ac unigolion agored i niwed a all fod mewn perygl o fod yn ddigartref i gynnwys cyn aelodau'r lluoedd arfog.

Cadarnhaodd y Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth y gellid addasu'r Strategaeth i gynnwys y grŵp hwn.

Roedd yr Arweinydd yn teimlo ei bod yn ddiddorol nodi mai'r ail reswm mwyaf cyffredin pam fod pobl yn ddigartref oedd am nad oedd rhieni'n gallu neu nad oeddent yn fodlon rhoi cartref i oedolion ifanc yn y categori 16 i 18 oed. Ychwanegodd hefyd ei bod yn bwysig bod digon o ofod llawr/gwelyau mewn llety a drefnir ar gyfer y bobl a oedd yn ddigartref yn y Fwrdeistref Sirol ac a hoffai gael to uwch eu pen, a'u bod wedyn yn gallu cael gafael ar rai gwasanaethau cymorth allweddol a all fod eu hangen arnynt.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn teimlo y dylai'r broses ymgynghori gael ei hymestyn i gynnwys cynulleidfa mor eang â phosibl, gan fod digartrefedd yn broblem fawr sydd angen sylw gyda golwg ar wella'r sefyllfa bresennol. Ychwanegodd y dylid gwahodd Aelodau'r Cabinet i unrhyw grwpiau ymgynghori sy'n cael eu trefnu.

Daeth yr Arweinydd â'r ddadl ar y pwnc pwysig hwn i ben drwy gytuno â sylwadau'r Dirprwy Arweinydd, gan ychwanegu ei fod wedi gofyn i'r Cyngor Ieuenctid gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, ac roedd yn falch hefyd y bydd Aelodau'r Meinciau Cefn yn helpu i ddylanwadu ar y strategaeth drwy'r broses drosolwg a chraffu gan fod y strategaeth ar y rhaglen waith.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo cyfnod o ymgynghori cyhoeddus ar y Strategaeth Ddigartrefedd ddrafft, a nodwyd y bydd Strategaeth derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet i gael ei chymeradwyo a'i mabwysiadu yn dilyn y cyfnod ymgynghori, cyn ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 303. DIWEDDARIAD AR Y GRONFA GWEITHREDU CYMUNEDOL 2018-19

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr Dros Dro a oedd yn cynnwys diweddariad ar y defnydd o'r Gronfa Gweithredu Cymunedol (CAF) a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 5 Medi 2017; i roi diweddariad ar argymhellion y Pwyllgor Archwilio ac i gael cymeradwyaeth i ddirwyn y Gronfa Gweithredu Cymunedol i ben.

Roedd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2017-2021, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2017, yn cynnwys cyllideb newydd o £285,000 i greu Cronfa Gweithredu Cymunedol. Nodau cyffredinol y gronfa oedd creu cyfleoedd ar gyfer ymyriadau lleol gan Aelodau yn eu wardiau eu hunain er budd y gymuned. Y gobaith oedd ymestyn yr effaith y byddai arian y cyngor yn ei chael ar gymunedau unigol a bod yn ffynhonnell cyllid y gallai Aelodau Etholedig ei defnyddio fel unigolion i fod o fudd uniongyrchol i'w ward leol.

Aeth ymlaen i ddweud bod gan Aelodau Etholedig gryn ddisgresiwn ynglŷn â sut mae'r arian wedi cael ei wario, gyda'r amod cyffredinol bod yn rhaid i'r gwariant fod yn gyfreithlon ac na ddylai fod yn groes i bolisi'r Cyngor. Yn yr un modd, ni ddylai arian gael ei ddyfarnu i sefydliadau sy'n cynhyrchu elw nac i ddibenion gwleidyddol. Ni ddylai gael ei ddefnyddio ychwaith ar gyfer gwariant sy'n rheolaidd ac a fyddai felly angen am arian eto yn y dyfodol.

Roedd yn rhaid i Aelodau Etholedig gael hyfforddiant gorfodol cyn iddynt gyflwyno ceisiadau am daliadau i sicrhau bod y cynllun yn gweithredu'n ddidrafferth, bod y costau gweinyddu ac ymholiadau mor isel â phosibl, a bod Aelodau'n gallu cydymffurfio ag amodau'r cynllun a rheoleiddio'u hunain.

Yn ystod y cyfnod pan oedd y cynllun yn weithredol dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod cyfanswm o £231,667.24 o'r £270,000.00 (85.8%) a oedd ar gael wedi'i ddosbarthu o'r Gronfa Gweithredu Cymunedol i ariannu 156 o brosiectau ledled y Fwrdeistref Sirol.

Roedd paragraff 4.1.4 o'r adroddiad yn rhoi enghreifftiau o amrywiaeth o brosiectau a oedd wedi cael nawdd, gyda rhestr lawn o'r prosiectau wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Roedd yr adran nesaf o'r adroddiad yn rhoi manylion am y cymorth gweinyddol roedd ei angen ar gyfer y cynllun, a bod hynny'n fwy cymhleth nag oedd wedi'i ragweld ar y dechrau. Roedd y cymorth i'r Gronfa'n cael ei ddarparu'n bennaf gan staff Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyllid a Democrataidd, ac roedd yn mynd â llawer o'u hamser.

Roedd paragraff 4.3 yn cadarnhau fod yr Archwilwyr Mewnol wedi cynnal adolygiad o'r Gronfa Gweithredu Cymunedol, ac mae canfyddiadau'r adolygiad i'w gweld yn yr adran hon o'r adroddiad.

Daeth â'i gyflwyniad i ben drwy gadarnhau gan fod peth o'r adborth a gafwyd i'r cynllun, yn enwedig gan Aelodau, yn gymysg, ac y gallai fod yn fwy buddiol yn y dyfodol i'r Cabinet ystyried dirwyn y Gronfa i ben ac i drosglwyddo'r £285,000.00 yn ôl i'r MTFS.

Er bod y Cabinet yn teimlo bod y nifer sylweddol o Brosiectau a ariannwyd drwy'r Gronfa'n werth chweil ac o fudd i'r gwahanol gymunedau, roeddent hefyd yn cydnabod bod y Cyngor yn parhau i wynebu anawsterau ariannol wrth edrych i'r dyfodol ac oherwydd hyn, efallai y byddai'n well pe byddai'r arian uchod yn cael ei ddyrannu i gronfa Gorfforaethol y Cyngor.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn teimlo efallai y gellid ailedrych ar y prosiect ar ôl i'r cyni ariannol ddod i ben.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:-

(1) Nodi'r adroddiad.

(2) Cymeradwyo dirwyn y Gronfa Gweithredu Cymunedol i ben a throsglwyddo'r £285,000 yn ôl i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i'w ystyried wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2019-20 i 2022-23.

## 304. DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol a'r Swyddog Monitro, a oedd yn cynnwys manylion am y Polisi uchod sy'n weithredol o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA).

Nododd fod y RIPA yn cynnwys fframwaith sy'n galluogi cyrff cyhoeddus penodol, gan gynnwys awdurdodau lleol, i ddefnyddio pwerau cuddwylio i gasglu gwybodaeth am unigolion heb yn wybod iddynt, i gyflawni swyddogaethau statudol mewn cysylltiad ag atal a chanfod troseddau.

Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol a'r Swyddog Monitro bod gofyniad ar Aelodau i adolygu'r defnydd o RIPA ac i bennu'r Polisi o leiaf unwaith y

flwyddyn. Er na all Aelodau Etholedig fod yn rhan o benderfyniadau ar awdurdodaethau penodol, caniateir iddynt i gael trosolwg o'r broses.

Cadarnhaodd mai'n anaml iawn yr oedd y Cyngor wedi defnyddio RIPA yn draddodiadol, ac roedd wedi'i ddefnyddio yn yr achosion hynny'n unig lle'r oedd yn bwysig cael gwybodaeth i helpu achosion troseddol a dim ond mewn achosion lle nad oedd modd cael yr wybodaeth drwy ddulliau eraill. Ychwanegodd na fu dim awdurdodaethau ar gyfer RIPA ers Ebrill 2014.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol a'r Swyddog Monitro yr Aelodau at baragraff 4.3 o'r adroddiad, a oedd yn nodi rhesymau eraill a allai fod yn gyfrifol am y gostyngiad yn nifer yr awdurdodaethau y gofynnwyd amdanynt.

Yn olaf, cyfeiriodd at y rhestr o swyddi dynodedig a enwebwyd fel Swyddogion Awdurdodi i awdurdodi cuddwylio yn y Cyngor (Atodiad 1 o'r Polisi sydd wedi'i amgáu gyda'r adroddiad yn Atodiad A) sydd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru.

Gofynnodd yr Arweinydd drwy ba ddulliau yr oedd gweithgarwch RIPA yn cael ei fonitro yn y Cydwasanaethau Rheoliadol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol a'r Swyddog Monitro fod hyn yn cael ei fonitro gan Gyngor Bro Morgannwg, a'i oruchwylio'n annibynnol gan y Llysoedd (Ynadon).

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi'r adroddiad ac yn cymeradwyo'r Polisi a amgaeir fel Atodiad A, ynghyd â'r rhestr ddiwygiedig o Swyddogion Awdurdodedig.

305. POLISI YMDDYGIAD AFRESYMOL/ACHWYNWYR BLINDERUS

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol adroddiad a oedd yn cyflwyno i'r Aelodau y Polisi Ymddygiad Afresymol neu Achwynwyr Blinderus i'w gymeradwyo (amgaeir yn Atodiad 1 o'r adroddiad).

I esbonio'r cefndir, roedd yr adroddiad yn nodi nad oedd gan yr Awdurdod Bolisi ar hyn o bryd a oedd yn delio ag ymddygiad a chwynion afresymol gan gwsmeriaid, gan gynnwys rhai blinderus eu natur.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol y byddai Polisi o'r fath yn helpu Swyddogion i ddeall beth yn union a ddisgwylir ganddynt; pa opsiynau i weithredu sydd ar gael iddynt a phwy all awdurdodi camau o'r fath. Gellir hefyd ei rannu â chwsmeriaid a'u helpu i reoli eu disgwyliadau ac egluro na ddylai rhai ymddygiadau'n cael eu goddef.

Cymeradwyodd yr Aelod o'r Cabinet – Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant y polisi gan bwysleisio er bod gan y cyhoedd yr hawl i gwyno ac y bydd cwynion yn cael eu cymryd o ddifrif, ni fydd yr awdurdod yn goddef ymddygiad ymosodol na threisgar tuag at staff.

Roedd paragraff 4.2 yn crynhoi prif ddarpariaethau'r Polisi.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi uchod sydd wedi'i amgáu yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

306. ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol adroddiad, er mwyn hysbysu'r Cabinet o'r Adroddiad Gwybodaeth i nodi'r hyn a amlinellir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad, a gyhoeddwyd ers y cyfarfod diwethaf a drefnwyd.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddi'r ddogfen a restrir yn yr adroddiad.

307. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 15:35